

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol The Gateway,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 26 Tachwedd 2024

Dyddiad cyhoeddi: 26 Chwefror 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol The Gateway, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 26 Tachwedd 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd wyth ymateb gan gleifion ac 11 o ymatebion gan y staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn.'

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth gofal iechyd a gwybodaeth i gleifion perthnasol ar gael ym mhob rhan o'r practis ac ar wefan y practis. Roedd y wybodaeth yn cynnwys canllaw mewn perthynas â'r gwasanaeth tawelyddu ymwybodol a oedd ar gael yn y practis. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff wedi esbonio gofal y geg iddynt mewn modd priodol.

Gwelsom fod tîm y practis yn gweithio'n galed i drin ei gleifion â charedigrwydd, urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y practis yn cynnig triniaeth frys heb ei threfnu ar sail cyntaf i'r felin. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei chynnal er mwyn defnyddio slotiau apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau
- Gosod system larwm â chortyn tynnu yn y toiled hygyrch i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd arwydd wedi'i arddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r deintyddion am unrhyw newidiadau i'w meddyginiaeth
- Roedd gwasanaeth tawelyddu ymwybodol yn cael ei gynnig i gleifion pryderus
- Gellid trefnu apwyntiadau â therapydd ar gyfer y diwrnod canlynol
- Hygyrchedd da i gleifion â phroblemau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis deintyddol mewn cyflwr da, yn lân ac wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn dachus ac yn rhydd o beryglon.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith.

Gwelsom brosesau dihalogi da. Fodd bynnag, roedd handlenni chwistrelli heb eu selio yn nroriau un o'r deintyddfeydd. Gwelsom hefyd mai drwy gadw drws yr ystafell ddihalogi ar agor roedd y practis yn sicrhau mewnlf o aer, ac roeddem o'r farn nad oedd hyn yn briodol.

Roedd polisi addas ar waith i reoli meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd y cyfarpar i'w ddefnyddio mewn argyfwng ar gael yn hawdd ac mewn cyflwr da, ond nid oedd rhai o'r cyfarpar nad oedd yn orfodol yn gyfredol ac roedd angen ei waredu.

Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i brofi a bod asesiad risg ymbelydredd wedi cael ei gynnal. Roedd gwybodaeth i gleifion am risgiau a manteision pelydrau-X yn cael ei harddangos. Fodd bynnag, roedd angen monitro ansawdd delweddau pelydr-X yn fwy effeithiol.

Roedd y cofnodion deintyddol a welsom yn anghyson. Roedd rhai ohonynt wedi cael eu cwblhau i safon dda, ond roedd angen gwella'r cofnodion eraill. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn yr un cofnod.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu polisi cynnal a chadw'r adeilad er mwyn cynnwys oedran a statws rhestredig yr adeiladau
- Roedd angen i sawl aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant diogelwch tân
- Datrys materion a godwyd yn yr asesiad risg tân
- Mae angen tynnu plygiau o'r sinciau yn y deintyddfeydd
- Rhoi system ar waith i wirio dyddiadau dod i ben y deunyddiau deintyddol yn y practis
- Rhaid cloi pob cwpwrdd glanhau pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
- Cynnal archwiliad clinigol o belydrau-X
- Sicrhau y caiff dewis iaith cleifion ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mynediad i bractis arall er mwyn cydlynu gofal brys fel rhan o'r cynllun parhad busnes
- Trefniadau cymorth cyntaf da, gyda phecyn o ansawdd da a nifer priodol o staff hyfforddedig
- Cydymffurfiaeth dda â phelydrau-X gan gynnwys arwyddion priodol uwchben drysau'r deintyddfeydd
- Trefniadau da ar gyfer cynnig y gwasanaethau tawelyddu yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwyr y practis yn agored a'i bod yn hawdd i'r staff fynd atynt, ac roedd yn amlwg bod ysbryd tîm da yn y practis.

Er ein bod yn credu i'r practis gael ei arwain yn dda ar y cyfan, gwnaethom ystyried bod cyfle i oruchwylio rhai meysydd yn fwy. Gwelsom fod angen rheoli fersiynau'r polisiau yn fwy cyson a bod angen i'r staff eu llofnodi i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Nodwyd gennym fod proses sefydlu addas ar waith ac roedd y staff yn ymddangos fel petaent yn cael eu cefnogi yn eu rolau gyda thystiolaeth o arfarniadau rheolaidd. Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn dweud y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo.

Gwelsom lefelau da o gydymffurfiaeth ymhlith y staff â rhwymedigaethau proffesiynol, gan gynnwys cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yswiriant indemniad a gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r trefniadau goruchwylio hyfforddiant a rhoi rhaglen archwilio gadarn ar waith
- Llunio mynegai o bolisiau a rheoli fersiynau'n gyson
- Cynnal adolygiad o'r polisi tawelyddu ymwybodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cwynion wedi'u dogfennu'n llawn ac roeddent yn aml wedi cael eu datrys ar yr un diwrnod
- Roedd archwiliad o'r cwynion wedi cael ei gynnal yn ddiweddar
- Roedd y practis wedi creu cysylltiadau da â'r bwrdd iechyd lleol ac roedd yn aelod gweithredol o'r grŵp clwstwr gofal iechyd lleol
- Roedd y practis yn addysgu deintyddion dan hyfforddiant ac yn newid rhwng technegau rheoli cleifion, gan gynnwys hypnotherapi ac aciwbigo.
- Roedd y practis wedi gweithio mewn partneriaeth â phractis deintyddol cyfagos i gwblhau triniaethau mewn argyfwng.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r wyth ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Hoffwn bwysleisio bod pob aelod o staff y practis yn ddymunol ac yn barod i helpu. Enghraifft dda o sicrhau bod rhywun yn cael y profiad gorau posibl mewn sefyllfa anodd."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth berthnasol am ofal iechyd ar gael yn yr ardal aros i gleifion, a oedd yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu a chanllawiau ar ddeiet iach. Gwelsom fod gwybodaeth am ffioedd triniaethau hefyd yn cael ei harddangos.

Roedd gwefan y practis yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaeth, gyda thudalen ddynodedig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am y gwasanaethau tawelyddu a gynigir, y trefniadau mynediad a gwybodaeth am barcio. Roedd gwybodaeth bellach am y gwasanaeth tawelyddu ar gael yn y practis. Roedd arwydd i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r deintyddion am unrhyw newidiadau i'w meddyginiaeth.

Roedd enwau aelodau'r tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos ac roedd arwyddion 'dim smygu' i'w gweld yn glir yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt (6/8) yn cytuno bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg. Dywedodd yr ymatebwyr eraill nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd a pharch. Roedd cytundeb cyfrinachedd wedi cael ei gynnwys yng nghontract cyflogaeth y staff. Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd deintyddion yn gweld y cleifion, a oedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Dywedwyd wrthym fod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer y cleifion sy'n cael eu tawelyddu er mwyn iddynt ymadfer yn y cadeiriau deintyddol a bod amseroedd yr apwyntiadau'n cael eu trefnu'n unol â hynny.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ystafell aros ac roedd hyn yn cyfyngu ar breifatrwydd y cleifion wrth iddynt roi gwybod i'r staff eu bod wedi cyrraedd. Dywedwyd wrthym y gallai trafodaethau cyfrinachol a galwadau ffôn gael eu cynnal mewn deintyddfa wag.

Roedd egwyddorion moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ystafell aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dyweddodd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt (6/8) fod y costau wedi cael eu cyfleu'n glir iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Dyweddodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a chadarnhawyd bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dyweddwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion os oedd unrhyw oedi o ran apwyntiadau. Rhoddwyd gwybod fod yn rhaid i'r cleifion aros tair wythnos rhwng pob apwyntiad ar gyfer triniaeth gan ddeintyddion ar gyfartaledd, ond y gallant drefnu apwyntiad gyda'r therapydd ar gyfer y diwrnod canlynol o bosibl.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau brys ar gael bob dydd a'u bod yn cael eu defnyddio ar sail cyntaf i'r felin. Roedd y llinellau ffôn yn agor am 09:00 ar gyfer yr apwyntiadau hyn. Roedd y wybodaeth hon hefyd wedi'i chynnwys ar wefan y practis.

Roedd oriau agor a rhif ffôn brys y tu allan i oriau'r practis wedi'u harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd tri ymatebydd nad oeddent yn gwybod.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrrio ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Er bod gwybodaeth i gleifion ar gael mewn print bras a fformatau hawdd eu deall, ychydig o wybodaeth ysgrifenedig oedd ar gael yn Gymraeg yn y practis. Gwelsom hefyd nad oedd y 'Cynnig Rhagweithiol' wrth ddarparu triniaeth yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, a dywedwyd wrthym nad oedd y staff yn holi am ddewis iaith y cleifion. Gwnaethom godi hyn â'r uwch-dîm rheoli a drefnodd bod arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn ystod yr arolygiad ac a gynghorodd staff y dderbynfa yn unol â hynny.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis, ond bod sawl aelod o'r staff wedi holi am hyfforddiant Cymraeg. Roedd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd hysbysiad i'w weld a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion am yr opsiwn hwn.

Roedd y practis yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa a oedd yn galluogi'r cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol i drefnu triniaeth. Nid oedd cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu darparu yn y practis mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion. Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau

hyfforddiant ar y pwnc hwn. Gwelsom hefyd fod polisi bwllo ac aflonyddu yn y gweithle ar waith.

Dywedodd y staff wrthym y byddai enwau a/neu ragenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn helpu i sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin â pharch.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Roedd y llawr a oedd yn arwain at y practis yr un lefel â'r palmant y tu allan. Roedd dwy ddeintyddfa a oedd yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a gwnaethom nodi bod rhan is y dderbynfa hefyd yn helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn wrth iddynt adael i'r staff wybod eu bod wedi cyrraedd ar gyfer eu hapwyntiadau.

Gwelsom fod y toiled i gleifion yn lân, ei fod yn hygyrch a bod canllawiau a sinc wedi cael eu gosod ar lefel briodol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cloch alw ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig osod system larwm â chortyn tynnu yn y toiled hygyrch i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd y practis deintyddol wedi'i leoli mewn adeilad rhestredig â rheolau cynllunio caeth a oedd yn cyfyngu ar y gwaith cynnal a chadw a'r gwaith diweddar yr oedd yn bosibl eu gwneud i'r practis. Fodd bynnag, gwelsom mai dogfen gryno iawn oedd polisi cynnal a chadw'r adeilad. O ystyried statws cofrestredig yr adeilad, a'r problemau posibl sy'n gysylltiedig â strwythur hŷn, gwnaethom nodi nad oedd y polisi yn cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i ni y byddai'r adeilad bob amser yn addas at y diben.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben.

Ar y cyfan, gwelsom bractis a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda deintyddfeydd mawr, cyfforddus a golau. Y tu mewn i'r practis, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon dda, ond gwelsom fod olion traul ar ochrau rhai arwynebau gwaith yn y deintyddfeydd. Gwelsom hefyd nad oedd handlenni ar gypyrddau a oedd yn cynnwys biniau offer miniog, a bod yn rhaid i'r staff ddefnyddio eu traed i'w hagor. Roedd hyn hefyd wedi arwain at arwynebau wedi'u difrodi. Gwelsom fod y paent yn plicio ar un o'r trawstiau yn Neintyddfa 2 a bod angen unioni'r mater.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Atgyweirio'r arwynebau sydd wedi'u difrodi er mwyn sicrhau bod modd dilyn prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol
- Gosod dulliau agor priodol ar y cypyrddau
- Sicrhau bod y paent mewn cyflwr addas yn y deintyddfeydd.

Roedd yr ardaloedd aros i gleifion yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon. Gwelsom fod trefniadau addas i'r staff newid eu dillad ac i storio eu heiddo personol. Gwelsom fod nifer o bolisiâu cyfredol sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch ar waith. Gwnaethom awgrymu y gallai'r rhain gael eu cyfuno mewn un ddogfen gynhwysfawr yn hytrach nag elfennau ar wahân. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu harddangos.

Gwelsom fod y cofnodion diogelwch nwy blynyddol, yr arolygiad bob pum mlynedd o wifrau a'r Profion Offer Cludadwy yn gyfredol. Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn os na fyddai'n bosibl darparu'r ystod

lawn o wasanaethau o ganlyniad i ddigwyddiad nas rhagwelwyd. Roedd hyn yn cynnwys mynediad i bractis arall er mwyn cydlynu gofal brys. Dywedwyd wrthym fod y polisi hwn wedi cael ei anfon dros e-bost at bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau y gallai pob un ohonynt gael gafael ar y rhifau cyswllt.

Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer y cyfarpar tân, ac roedd pob un o'r diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân a gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau'n cael eu cynnal yn wythnosol ar y cyfarpar a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd yr allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir. Gwelsom fod yr asesiad risg tân yn cael ei adolygu'n flynyddol. Fodd bynnag, gwelsom asesiad risg tân o fis Tachwedd 2022 a oedd yn cynnwys argymhellion nad oeddent wedi cael eu rhoi ar waith hyd yma.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân yn flynyddol a darparu tystiolaeth i AGIC ar ôl iddynt ei gwblhau
- Gwneud trefniadau addas i ddatrys materion a godwyd yn yr asesiad risg tân a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'u cwblhau.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd yr adeilad yn ymddangos yn lân ac roedd yr ardal aros i gleifion wedi'i dodrefnu'n addas er mwyn sicrhau y gellir ei glanhau. Er bod amserlenni'n cael eu defnyddio er mwyn helpu i roi prosesau glanhau effeithiol ar waith, nid oedd rhai ohonynt ar gael ar gyfer yr ardaloedd a rennir, ac roedd y trawstiau a oedd i'w gweld a'r llwydni ar y plastr yn heriau ychwanegol.

Roedd polisi cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael ym mhob deintyddfa ac yn y toiledau, ac roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd handlenni chwistrellau anesthetig lleol Safety-Plus wedi'u selio mewn droriau a bod plygiau yn sinciau'r deintyddfeydd. Gwelsom gynnyrch Temp-Bond yr oedd y dyddiad defnyddio arno wedi mynd heibio yn Neintyddfa 3. Gwelsom hefyd rwymynnau tynhau ffabrig yn cael eu defnyddio. Yn ein barn ni, nodwyd y byddai cadw'r rhain yn lân yn achosi problemau. Rydym yn awgrymu y dylai'r practis ystyried defnyddio rhwymynnau tynhau untro tafladwy yn hytrach na'r rhai ffabrig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Sicrhau bod chwistrellau deintyddol yn cael eu selio ar ôl iddynt gael eu diheintio er mwyn sicrhau eu bod wedi'u sterileiddio o hyd
- Tynnu plygiau o'r sinciau yn y deintyddfeydd
- Sicrhau bod system ar waith i wirio dyddiadau defnyddio'r deunyddiau deintyddol yn y practis a gwaredu unrhyw ddeunyddiau y mae'r dyddiad

defnyddio arnynt wedi mynd heibio a sicrhau bod rhai eraill ar gael yn eu lle.

Roedd ystafell ddihalogi ddynodedig gyda system briodol ar waith er mwyn cludo'r offer a oedd wedi'u defnyddio'n ddiogel o'r deintyddfeydd i'r ystafell ddihalogi.

Disgrifiwyd a dangoswyd trefniadau priodol ar gyfer glanhau a dihalogi offer aml dro. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai dim ond gwyntyll echdynnu all-lif oedd wedi cael ei gosod a bod mewn lif o aer yn cyrraedd drwy adael y drws ar agor. Yn ein barn ni, nodwyd bod hyn yn amhriodol. Dywedodd y staff bod yr ystafell yn boeth iawn yn ystod tywydd cynnes.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried gosod system awyru briodol yn yr ystafell ddihalogi, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

At hynny, ni welsom dystiolaeth bod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05 a rhoi dystiolaeth i AGIC ar ôl ei gwblhau.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis. Gwelsom fod y gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol mewn ardal allanol, ddiogel cyn iddo gael ei gasglu.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â thrin sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt. Er bod cypyrddau COSHH wedi'u labelu yn y deintyddfeydd, gwelsom nad oedd un cwpwrdd a oedd yn agos at yr ardal aros i gleifion wedi'i gloi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y storfa COSHH yn cael ei chloi bob amser pan nad yw'n cael ei defnyddio.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer awyru nwy tawelyddu o'r deintyddfeydd. Gwelsom fod y cyfarpar gwaredu yn tynnu'r nwy o'r deintyddfeydd gyda'r all-lif ar lefel isel.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion o'r farn bod y practis yn lân iawn ac yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Rheoli Meddyginiaethau

Nodwyd gennym nad oedd unrhyw feddyginiaethau'n cael eu storio yn y practis, heblaw cyffuriau tawelyddu a chyffuriau ar gyfer argyfyngau meddygol. Roedd proses addas ar waith ar gyfer gwirio a chael gwared â chyffuriau brys yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio. Gwnaethom drafod diweddarau gweithdrefnau gweithredu'r practis er mwyn cadarnhau'r broses hon. Gwelsom fod cyffuriau yn cael eu storio'n briodol a'u bod yn gyfredol.

Gwelsom fod polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng meddygol yn y practis a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol cyfredol. Roedd y cyfarpar brys yn gyfredol ac ar gael. Roedd y rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom. Fodd bynnag, nodwyd gennym mai ym mis Medi 2020 yr oedd un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio ddiwethaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod arall o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant adfywio diweddaraf a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.

Gwelsom hefyd bod trefniadau addas ar waith ar gyfer argyfyngau lle y defnyddir prosesau tawelyddu a bod aelodau perthnasol o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cynnal bywyd brys yn ôl yr angen.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau cynnal a chadw a'r prosesau gwasanaethu gofynnol wedi'u cynnal ar y silindrau ocsigen a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol i'w defnyddio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar silindrau penodol BOC yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2024) 036 PSN 041. Gwnaethom godi hyn gyda rheolwr y practis a ddywedodd nad oedd wedi derbyn y cylchlythyr hwn gan y bwrdd iechyd lleol. Gwnaed trefniadau i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn a chafodd tystysgrifau cwblhau y rhan fwyaf o'r staff eu hanfon i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r aelodau eraill o'r staff gwblhau hyfforddiant ar silindrau BOC a rhoi copïau o'r tystysgrifau i AGIC.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn drefnus yr olwg. Roedd niferoedd priodol o swyddogion cymorth cyntaf i sicrhau bod swyddog ar gael pe bai un arall yn sâl neu ar wyliau.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y deintyddfeydd i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol, gan gynnwys cyfarpar tawelyddu. Roedd y cyfarpar yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y ddyfais anadlu I-gel nad yw'n orfodol a oedd yn rhan o'r cyfarpar tawelyddu yn gyfredol a bod angen dyfais newydd.

Roedd y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel a bod arwyddion priodol wedi'u gosod uwchben pob deintyddfa. Roedd posteri wedi'u harddangos yn cynghori'r cleifion am risgiau a manteision pelydr-X. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn nodi bod prosesau cynnal a chadw a phrofion angenrheidiol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar, a bod asesiad risg ymbelydredd wedi cael ei gynnal. Nodwyd gennym fod adroddiad ar gael gan Gynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd, dyddiedig 2023, a oedd yn argymhell y dylid diweddarau'r rheolau lleol. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod yr argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau addas i ddatrys materion a godwyd yn adroddiad y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fydd wedi'u datrys.

Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y cleifion. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod ansawdd y delweddu yn cael ei fonitro. Roedd rhai delweddu a welsom o ansawdd gwael a gwnaethom nodi bod gwahaniaeth mawr rhwng delweddu'r synhwyrdd digidol a delweddu'r plât ffosffor na chafodd ei nodi gan y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad clinigol o belydrau-X. Rydym yn argymhell y canlynol:

cynnal archwiliad o'r cyfarpar pelydr-X bob chwe mis yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (y DU).

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff a oedd yn ymwneud â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a welsom.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom bolisi cyfredol addas ar waith mewn perthynas â diogelu a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol perthnasol. Gwnaethom drafod y dylid cael taflen ar ganllawiau diogelu y gellir cyfeirio ati yn gyflym ar gael ym mhob deintyddfa ac yn yr ystafell staff er mwyn ei defnyddio'n hawdd os bydd pryder.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig wedi'i benodi yn y practis a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar wybodaeth am brosesau amddiffyn plant ac oedolion. Roedd fersiwn gyfredol o ganllawiau Diogelu Cymru Gyfan ar gael i'r practis.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y practis a chawsom sicrwydd bod canllawiau rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn pan oedd triniaeth yn cael ei darparu. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu tawelyddu yn unol â'r canllawiau arferion gorau.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio rhestrau gwirio wedi'u hargymell er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir a bod y staff yn ymwybodol o sut i ofyn am gyngor proffesiynol perthnasol pan fo angen. Gwelsom dystiolaeth o ymarfer clinigol da mewn perthynas â therapiau rheoli gorbryder cyflenwol.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel yn unol â pholisi diogelwch data y practis. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion yn cael eu cadw am y cyfnod priodol o amser yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar gofnodion deintyddol naw claf, ac ar y cyfan, roeddem o'r farn bod clinigwyr gwahanol wedi eu cwblhau i ansawdd amrywiol. Roedd pob cofnod yn cynnwys dynodyddion cleifion addas ac roedd yr hanes meddygol cychwynnol wedi cael ei gofnodi a'i lofnodi gan y claf a'r deintydd. Roedd y siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau periodontol sylfaenol a phroffion sgrinio am ganser wedi'u cofnodi ar bob cofnod. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer o hepgoriadau. Prin oedd y dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau ar gyfer triniaethau, ac roedd yr hanes deintyddol blaenorol ar goll ar gyfer saith o'r cofnodion. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth ar goll ar gyfer dau gofnod, ac nid oedd y rheswm dros fynychu na'r symptomau wedi cael eu cofnodi'n gyson. Gwelsom nad oedd yr asesiadau risg bob amser yn cael eu cofnodi a bod hyn yn effeithio ar y cyfnodau adalw, a oedd yn groes i ganllawiau NICE. Gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi a allai eu hatal rhag cael gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Clywsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safonau ansawdd y gofal, gyda digon o glinigwyr a therapyddion ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roeddem o'r farn bod llif da o gleifion yn cyrraedd ac yn gadael drwy'r llwybrau atgyfeirio ac roedd system electronig ar waith i reoli'r broses hon er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu monitro'n barhaus.

Gwelsom fod y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir a bod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon gyda gofal deintyddol brys yn cael ei gynnal drwy gynnig slotiau brys ac roedd unrhyw apwyntiadau a gaiff eu canslo ar gael i gleifion eraill a oedd ar y rhestr aros.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd 11 o aelodau o'r staff i holiadur AGIC a chafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y staff a gwblhaodd yr holiadur yn cynnwys y canlynol:

“Tîm gwyh i weithio gydag ef, rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi yn fy rôl.”

“Practis y GIG prysur gyda tîm gwyh. Mae pawb yn gweithio'n galed ac yn ceisio gwneud eu gorau.”

“Hwn yw'r practis gorau rwyf wedi gweithio ynddo. Mae unrhyw fethiannau, yn fy marn i, yn deillio o'r galw i gydbwysu'r drefn o ddarparu gofal y GIG a sicrhau bod y busnes yn hyfyw.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Mae'r practis yn cael ei redeg fel practis cydweithredol gyda phum cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod rheolwyr y practis yn agored a'i bod yn hawdd i'r staff fynd atynt, ac roedd yn amlwg bod ysbryd tîm da yn y practis. Ar y cyfan, nodwyd gennym fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau. Disgrifiwyd llinellau adrodd clir, ond gwnaethom drafod yr opsiwn o benodi rheolwr practis dynodedig er mwyn goruchwyllo rhai agweddau yn well, fel hyfforddiant ac archwiliadau.

Roedd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â'r staff, gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd lle y caiff cofnodion eu cymryd a'u rhannu â'r staff. Dywedodd un aelod o'r staff:

“Mae'r cyfarfodydd tîm rheolaidd yn annog y staff i rannu gwybodaeth ac yn sicrhau bod dulliau cyfathrebu rhagorol o fewn y practis.”

Gwelsom fod amrywiaeth dda o bolisiau ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rolau. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis fynegai o'r polisiau hyn, roedd y broses rheoli fersiynau yn anghyson a gwelsom mai ychydig iawn ohonynt oedd wedi cael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Gwnaethom

nodi bod angen adolygu'r polisi tawelyddu ymwybodol gan nad oedd rhai o'r manylion yn berthnasol nac yn benodol i'r gwasanaeth tawelyddu yn y practis. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y polisi tawelyddu ymwybodol yn cael ei adolygu a'i ddiweddau'n unol â hynny, a sicrhau ei fod yn benodol i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis.
- Llunio mynegai o bolisiau er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r polisiau yn well
- Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu a'r person sy'n gyfrifol am adolygu'r weithdrefn
- Bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall polisiau perthnasol y practis i sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r practis
- Rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi gwneud hynny.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC y byddai'n argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo, fod ganddo fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle a bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r staff (9/11) yn cytuno bod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Mae tri deintydd, un hylenydd, tri therapydd, saith nyrs a chynorthwyydd dihalogi yn rhan o dîm y practis. Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio a oedd yn nodi'r holl ofynion mewn perthynas â staff sy'n gweithio yn y practis deintyddol. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a oedd yn gweithio yn y practis a gwelsom fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ddilys, tystiolaeth o yswiriant indemnïad a, lle y bo'n berthnasol, cofrestriad cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd brechiadau priodol yn erbyn Hepatitis B yn amlwg.

Roedd proses sefydlu briodol ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r practis a gwelsom dystiolaeth o'r arfarniadau staff blynyddol. Gwelsom fod y staff a oedd yn darparu gwasanaethau tawelyddu wedi cael hyfforddiant addas.

Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl a'u bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob un ohonynt yn cytuno bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y

practis a'u bod yn gallu defnyddio'r dechnoleg gwybodaeth angenrheidiol i roi gofal i'r cleifion.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Cafodd y trefniadau amrywiol eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys adolygiadau ar-lein. Roedd blwch awgrymiadau ar gael i alluogi cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol i adael adborth yn ddienw. Gwnaethom drafod y dylid ystyried yr opsiwn o anfon negeseuon testun awtomataidd at y cleifion er mwyn cael adborth ganddynt yn dilyn apwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gwelsom dystiolaeth bod yr adborth hwn yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd tîm. Nid oedd dull ffurfiol ar waith yn y practis i roi gwybod i'r cleifion am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'w hadborth. Gwnaethom drafod arddangos hysbysiadau 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn yr ardal aros.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb, sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen ac roedd hefyd yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt am help a chymorth. Gwnaethom edrych ar y ffeil cwynion a gwelsom fod y broses wedi'i dilyn a'i dogfennu drwyddi draw. Gwnaethom nodi bod y cwynion wedi cael eu datrys yn aml ar yr un diwrnod. Roedd archwiliad o'r cwynion wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Roedd polisi addas ar waith mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi codi hyd yma yr oedd angen rhoi'r broses Dyletswydd Gonestrwydd ar waith i'w datrys.

Dywedodd pob un o'r aelodau o staff a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd polisi diogelu data a pholisi diogelwch addas a chyfredol ar waith yn y practis er mwyn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei thrin a'i storio'n briodol.

Disgrifiwyd systemau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddiogelwch cleifion â'r staff ac asiantaethau a sefydliadau perthnasol eraill.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod rhai archwiliadau wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys yr archwiliad ar ragnodi gwrthfotigau, mynediad i bobl anabl a chwynion. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad ar y cofnodion clinigol, na'r archwiliad pelydr-X a'r archwiliad rheoli heintiau. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o'r archwiliad iechyd a diogelwch na'r archwiliad gwastraff clinigol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen fwy cadarn o archwiliadau clinigol ar waith a rhoi'r canlyniadau i AGIC ar ôl iddi gael ei chwblhau.

Gwelsom dystiolaeth yn y ffeiliau bod y practis wedi defnyddio'r Offeryn Hunanwerthuso Optimeiddio Sgiliau (SOSET) yn y gorffennol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio unrhyw offeryn datblygu tîm ar hyn o bryd. Gwnaethom drafod y dylid ailymweld â'r rhain fel rhan o raglen gwella ansawdd ehangach y practis.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gysylltiadau da â'r bwrdd iechyd lleol a'i fod yn aelod gweithredol o'r grŵp clwstwr gofal iechyd lleol. Roedd y practis yn addysgu deintyddion dan hyfforddiant ac yn newid rhwng technegau rheoli cleifion, gan gynnwys hypnotherapi ac aciwbigo, a oedd yn addas ar gyfer cleifion pryderus. Roeddem o'r farn bod hyn yn enghraifft o arfer da.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer ymgysylltu rhwng y practis a darparwyr gofal sylfaenol eraill, gan hyrwyddo llesiant cleifion drwy sicrhau gofal iechyd cydlynol gwell yn y gymuned. Roedd y rhain yn cynnwys partneriaeth â phractis deintyddol lleol arall er mwyn sicrhau y gellir cynnal triniaethau brys bob amser, a chydgyssylltu â'r gwasanaethau cymunedol lleol ynghylch tawelu cleifion yn y lleoliad mwyaf priodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd unrhyw bryderon a ddatryswyd ar unwaith yn ystod ein harolygiad.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Gateway

Dyddiad yr arolygiad: 26 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol The Gateway

Dyddiad yr arolygiad: 26 Tachwedd 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd tri ymatebydd nad oeddent yn gwybod.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig fyfyrion ar y materion a godwyd yn yr adborth hwn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.	Safon Ansawdd - Amserol	Mae'r wybodaeth hon eisoes wedi'i chynnwys ar bosteri, y wefan ac yn nhaflen y practis. Rwyf bellach wedi ychwanegu hyn at y negeseuon testun atgoffa	Stephanie Brooks	Eisoes wedi'i gwblhau
Nid oedd cloch alw mewn argyfwng wedi'i gosod yn y toiled hygyrch i gleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig osod system larwm â chortyn tynnu yn y toiled hygyrch i gleifion.	Safon Ansawdd - Teg Rheoliad 13(1)(a) a (b)	Mae'r cortyn tynnu wedi cyrraedd - rwyf am drefnu iddo gael ei osod	Stephanie Brooks	2 fis

O ystyried statws cofrestredig yr adeilad, ac oedran y strwythur, gwnaethom nodi nad oedd polisi cynnal a chadw'r adeilad yn cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i ni y byddai'r safle bob amser yn addas at y diben.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn sicrhau bod y safle bob amser yn addas at y diben.	Rheoliad 8(1)(c)	Rydym wedi cofrestru ag iComply i'n helpu i ddatblygu polisiau	George Warmisham	3 mis
Gwelsom fod olion traul ar arwynebau gwaith a chypyrddau. Roedd y paent yn plicio ar un o'r trawstiau yn Neintyddfa 2 ac roedd angen unioni'r mater.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: • Atgyweirio'r arwynebau sydd wedi'u difrodi er mwyn sicrhau bod modd dilyn prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol • Gosod dulliau agor priodol ar y cypyrddau • Sicrhau bod y paent mewn cyflwr addas yn y deintyddfeydd	Rheoliad 22(2)(b)	Rydym wedi archebu handlenni a drysau newydd ar gyfer y cypyrddau ac wedi ailbaentio'r trawst	Stephanie Brooks	3 mis

Nid oedd sawl aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelwch tân diweddaraf. Roedd asesiad risg tân yn cynnwys nifer o argymhellion i weithredu arnynt.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân yn flynyddol a rhoi tystiolaeth i AGIC ar ôl iddynt ei gwblhau - Gwneud trefniadau addas i ddatrys materion a godwyd yn yr asesiad risg tân a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'u cwblhau.	Rheoliad 22(4)(c) Rheoliad 22(4)(f)	Byddaf yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ac yn datrys y materion a godwyd yn yr asesiad risg tân	James Bathie	3 wythnos ar gyfer yr hyfforddiant 6 mis ar y gwaith adeiladu
Gwelsom nad oedd handlenni chwistrellau anesthetig lleol Safety-Plus wedi'u selio mewn droriau a bod plygiau yn sinciau'r deintyddfeydd. Gwelsom gynnyrch Temp-Bond yr oedd y dyddiad defnyddio	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: Sicrhau bod chwistrellau deintyddol yn cael eu selio ar ôl iddynt gael eu diheintio er mwyn sicrhau eu bod wedi'u sterileiddio o hyd	Rheoliad 13(3)(b)	Rwyf wedi sicrhau bod y chwistrellau anesthetig lleol bellach yn cael eu selio ar ôl iddynt gael eu dihalogi	Stephanie Brooks	Wedi'i wneud eisoes

arno wedi mynd heibio yn Neintyddfa 3	- Tynnu plygiau o'r sinciau yn y deintyddfeydd - Sicrhau bod system ar waith i wirio dyddiadau defnyddio'r deunyddiau deintyddol yn y practis a gwaredu unrhyw ddeunyddiau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio a sicrhau bod rhai eraill ar gael yn eu lle.	Rheoliad 22(2)(a) Rheoliad 13(6)(b)(iii)	Mae'r plygiau wedi cael eu tynnu. Rydym yn rhoi system newydd ar waith ar gyfer gwirio dyddiadau defnyddio		
Dim ond gwyntyll echdynnu all-lif oedd wedi'i osod yn yr ystafell ddihalogi. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth briodol ar gyfer sicrhau mewnlf aer.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried gosod system awyru briodol yn yr ystafell ddihalogi, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.	Rheoliad 22(2)(b)	Rydym wedi ystyried gosod gwyntyll arall yn y gorffennol ond nid oeddem yn credu y byddai hynny'n bosibl heb amharu ar strwythur yr adeilad. Byddwn yn ystyried hyn eto	Stephanie Brooks	3 mis

Ni welsom dystiolaeth bod archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05 a rhoi tystiolaeth i AGIC ar ôl ei gwblhau.	Rheoliad 13(6)(a) ac 16(1)(a)	Mae archwiliad bellach wedi'i gynnal	Stephanie Brooks	Eisoes wedi'i gwblhau
Er bod cypyrddau COSHH wedi'u labelu yn y deintyddfeydd, gwelsom nad oedd un cwpwrdd a oedd yn agos at yr ardal aros i gleifion wedi'i gloi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y storfa COSHH yn cael ei chloi bob amser pan nad yw'n cael ei defnyddio.	Rheoliad 22(2)(a)	Byddaf yn sicrhau y gallwn gloi'r drws heb amharu ar y drws tân	James Bathie	1 mis
Nodwyd gennym mai ym mis Medi 2020 yr oedd un aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio ddiwethaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod arall o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant adfywio diweddaraf a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi'i gwblhau.	Rheoliad 31(3)(a)	Mae'r aelod o staff bellach wedi cwblhau'r cwrs	George Warmisham	Eisoes wedi'i gwblhau
Er bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant sylfaenol ar ddefnyddio silindrau BOC yn ddiogel, nid oedd sawl un ohonynt wedi cwblhau	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r aelodau eraill o'r staff gwblhau hyfforddiant ar silindrau BOC a rhoi copïau o'r tystysgrifau i AGIC.	Rheoliad 13(2)(b)	Mae pob aelod o'r staff bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant a byddaf yn anfon y tystysgrifau atoch	Stacey Richards	Eisoes wedi'i gwblhau

hyfforddiant silindrau penodol BOC.					
Nodwyd gennym fod adroddiad ar gael gan Gyngorydd Diogelu rhag Ymbelydredd, dyddiedig 2023, a oedd yn argymhell y dylid diweddaru'r rheolau lleol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud trefniadau addas i ddatrys materion a godwyd yn adroddiad y Cyngorydd Diogelu rhag Ymbelydredd a rhoi tystiolaeth i AGIC pan fydd wedi'u datrys.	Rheoliad 16(2)(a)	Rydym wedi ystyried adroddiad y Cyngorydd Diogelu rhag Ymbelydredd Mae'r rheolau lleol a'r rheolau ar gyfer gweithwyr allanol wedi'u diweddaru	George Warmisham	Eisoes wedi'i gwblhau
Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod ansawdd y delweddau yn cael ei fonitro. Roedd rhai delweddau a welsom o ansawdd gwael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal archwiliad clinigol o belydrau-X. Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad o'r cyfarpar pelydr-X bob chwe mis yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (y DU).	Rheoliad 16(1)(a)	Rydym wedi cofrestru ag iComply a fydd yn ein helpu i gynnal yr archwiliadau hyn	George Warmisham	6 mis
Gwelsom fod nifer o hepgoriadau. Prin oedd y dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau ar gyfer triniaethau, ac roedd	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn	Rheoliad 20(1)(a)(i) a (ii)	Rydym eisoes wedi cynnal archwiliad ar y nodiadau. Tynnodd yr archwiliad hwn sylw at y diffygion cyffredinol	George Warmisham	Wedi'i gwblhau - parhaus

yr hanes deintyddol blaenorol ar goll ar gyfer saith o'r cofnodion. Nid oedd dau o'r cofnodion yn cynnwys cydsyniad ar sail gwybodaeth. Nodwyd anghysondebau eraill.	perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.		a'u diffygion unigol y byddwn yn eu hail-archwilio mewn chwe mis		
Gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion wedi'i gofnodi a allai eu hatal rhag cael gofal effeithiol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.	Rheoliad 13(1)(a)	Byddwn yn trafod y mater hwn yn ystod y cyfarfod cleifion nesaf ac yn gofyn i'r staff holi'r cleifion a chofnodi eu dewis iaith	George Warmisham	1 mis
Nid oedd gan y practis fynegai o'r polisiâu hyn, roedd y broses rheoli fersiynau yn anghyson a gwelsom mai ychydig iawn ohonynt oedd wedi cael eu llofnodi gan y staff. Roedd angen adolygu'r polisi tawelyddu ymwybodol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: Bod y polisi tawelyddu ymwybodol yn cael ei adolygu a'i ddiweddau'n unol â hynny, a sicrhau ei fod yn benodol i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis	Rheoliad 8	Rydym wedi cofrestru ag iComply a fydd yn rhoi trefn well ar y polisiâu ac yn ein galluogi i'w hanfon at y staff a chofnodi eu statws darllen Byddwn hefyd yn defnyddio iComply i'n helpu i adolygu'r polisi tawelyddu a bydd yn rhoi'r wybodaeth	George Warmisham Stacey Richards Stephanie Brooks	6 mis

	• Llunio mynegai o bolisiau er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r polisiau yn well • Bod pob polisi yn cynnwys hanes fersiynau, dyddiadau adolygu a'r person sy'n gyfrifol am adolygu'r weithdrefn • Bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall polisiau perthnasol y practis i sicrhau cydymffurfiaeth â phrosesau'r practis Rhoi tystiolaeth i AGIC pan fyddant wedi gwneud hynny.		ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau.		
Gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad ar y cofnodion clinigol, na'r archwiliad pelydr-X a'r archwiliad rheoli heintiau. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o'r	• Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen fwy cadarn o archwiliadau clinigol ar waith a rhoi'r canlyniadau i AGIC ar	Rheoliad 16	Unwaith eto, byddwn yn defnyddio iComply.	Stephanie Brooks Stacey Richards	3 mis

archwiliad iechyd a diogelwch na'r archwiliad gwastraff clinigol.	ôl iddi gael ei chwblhau.				
---	---------------------------	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **George Warmisham**

Teitl swydd: **Prif Ddeintydd**

Dyddiad: **24/01/2025**